Mae Cyngor Blaenau Gwent yn amcanu at weithredu fel sefydliad sy'n hunanwella, lle cydnabyddir yr hyn sydd wedi mynd yn dda ond, ac yn bwysicaf oll, lle cydnabyddir lle mae gwelliannau i'w gwneud. Mae'r Cyngor yn gweithio i ymateb i'r cwestiynau canlynol yn y gwaith y mae'n ei wneud:

- [illegible]
- [illegible]
- A yw trefniadau llywodraethu'r Cyngor yn effeithiol ar gyfer sicrhau gwelliant parhaus?

Mae ein Hunanasesiad yn rhoi trosolwg o'r gwaith a wnaed trwy gydol 2023/24 ac [illegible] hysgrifennwyd i ystyried:

- [illegible]
- [illegible]
- [illegible]

Ffocws yr Hunanasesiad Blynyddol yw blaenoriaethau Cynllun Corfforaethol Cyngor Blaenau Gwent, a elwir yn Amcanion Llesiant, a darparu asesiad o ba mor dda y mae'r Cyngor yn teimlo ei fod wedi cyflawni yn erbyn y rhain yn ystod 2023/24 a'r heriau i symud y rhain yn eu blaenau.

Amcanion Llesiant Cynllun Corfforaethol 2022/27 yw:

- [illegible]
- [illegible]
- [illegible] a
- Grymuso a chefnogi cymunedau i fod yn ddiogel, annibynnol a gwydn.

Mae'r amcanion hyn yn rhai i'w cyflawni gan y Cyngor yn y tymor canolig a hir ac felly ni fyddant yn cael eu gweithredu'n llawn o fewn yr amserlen fer hon. Mae'r Hunanasesiad yn darparu asesiad o ddarparu gwasanaethau trwy gydol 2023/24 sy'n cyfrannu at yr amcanion hyn. Mae asesiadau manwl o ddarparu gwasanaethau wedi'u cynnwys [illegible] ddogfen ar dudalennau 20 i 68.

Cyhoeddir yr Hunanasesiad yn flynyddol i roi cyfrif am sut y mae'r Cyngor wedi gweithredu dros y flwyddyn gan gynnwys yr hyn yr ydym wedi'i wneud yn dda ac, yn bwysicach, ble y mae angen cynnydd pellach.

O dan bob 708869 0 595.2 841.92 re W BT/F1 11.04 Tf1 0 0 1 348.62 310.18 Tm0 g0 G[illegible]8869 0 595.2 841.92 re W BT/F2 11.

Mae perfformiad ein pobl ifanc yng Nghyfnod Allweddol 4 yn dangos gwaith caled ein disgyblion ac ansawdd Ĭċǩr Ĭ!ƚŊƨċǩċĬĬ!ƚŊƨ ar draws ysgolion yn glir. Adlewyrchwyd hyn hefyd yn arolygiadau Estyn o 6 o'n hysgolion yn ystod y cyfnod, lle chafodd yr un ysgol ei rhoi mewn categori statudol.

Mae'r niferoedd isel iawn o bobl ifanc Nad Ydynt mewn Addysg, Cyflogaeth na Hyfforddiant (NEET) yn dangos bod bron pob un o'n dysgwyr wedi parhau mewn addysg uwch neu hyfforddiant, neu wedi mynd ymlaen i sicrhau cyflogaeth ar ôl gadael yr ysgol ar ddiwedd blwyddyn 11.

Mae'n braf iawn gweld bod Ysgol Sefydledig Brynmawr wedi parhau i fynd o nerth i nerth ac nad ydynt yn ysgol sy'n peri pryder mwyach; fodd bynnag, mae un ysgol yn Ĭċ ŸĬ!Ǘ!ƚŊŸƚ!ǩǗƓeri pryder, sef Canolfan yr Afon. Bydd yr Awdurdod Lleol yn parhau i roi cymorth estynedig i Ganolfan yr Afon, er mwyn ei chynorthwyo i gael ei thynnu o gategori Estyn.

Bu cynnydd mewn presenoldeb eleni, ond ů ċIJǩl ffigyrauǩǗĬċőIJȂ ddychwelyd at y lefelau cyn y pandemig, felly bydd parhau i wella presenoldeb mewn ysgolion yn flaenoriaeth allweddol i'r Awdurdod Lleol ym mlwyddyn academaidd 2024/25. Byddwn yn cynnal ymgyrch #maepobdyddyncyfri.

Mae ysgolion wedi gweithio'n galed i sefydlu cymorth ar gyfer dysgwyr sydd mewn perygl o gael eu gwahardd, boed am gyfnod penodol neuǩǗbarhaol, ac mae'r gwasanaeth ieuenctid hefyd wedi rhoi cymorth allweddol. Bu gostyngiad mewn gwaharddiadau, ond maent yn dal i fod yn uwch na'r lefelau cyn y pandemig ac mae lleihau gwaharddiadau ymhellach yn dal i fod yn flaenoriaeth i'r Awdurdod Lleol.

Gwelwyd y fenter STEM yn cael ei hehangu yn yr ardal, ċőǭőċƨǩǗlőoi cymorth ar draws nifer o ysgolion, gan godi dyhead a pharatoi plant ar gyfer eu taith i mewn i fyd gwaith.

Mae'r Cyngor wrthi'n gweithioǩǗlƨĬ gyda'r sector preifat i ddarparu cyfleoedd i ddod â mwy o swyddi ǩlċlĬċ ċǩlőIJǗ!ǩǗƚƨ!ĬĬ sy'n talu'n dda. Mae denu cwmnïau a diwydiannau i Flaenau Gwent yn un o flaenoriaethau allweddol y Cyngor. Yn ystod y cyfnod agorodd y Cyngor hyb menter (Goldworks) ac mae'r mewnfuddsoddiad gan Ciner yn dal i fod yn brosiect targed ar gyfer yr ardal. Bu cynnydd hefyd yn incwm ein portffolio diwydiannol, ac mae hyn oll wedi cyfrannu at wella safle Blaenau Gwent ym Mynegai Cystadleuol y DU.

Yn 2023/24, dechreuodd y gwaith adeiladu ar y Safle Peirianneg Gwerth Uchel (HiVE) i greu cyfleuster addysg ôl-16 uwchdechnoleg newydd gwerth miliynau o bunnoedd yng Nglyn Ebwy. Bydd y cyfleuster yn darparu hyfforddiant ac addysg o'r radd flaenaf i bobl ifanc a busnesau ym meysydd roboteg, deunyddiau uwch, gweithgynhyrchu a digidol, a thechnolegau galluogi. Fodd bynnag, yn 2024/25 aeth y cwmni a oedd yn gyfrifol am ċĬĬċƚƨǩl hen ffatri i ŊlIJƨǩl cyfleuster i ddwylo'r gweinyddwyr gan arwain at derfynu'r contract sydd wedi effeithio ar ddyddiad cwblhauǩƓlŸƚǩIJĦőƨǗ a phrosiectau eraill.

[illegible]

~ċIJǩl Amcan Llesiant hwn ƨIJĬǩƨlċĬƨ leihau allyriadau carbon, a darparu amgylchedd sy'n cefnogi twf a llesiant ac sy'n cysylltu cymunedau.

Trwy gydol 2023/24 bu'r Cyngor yn gweithio i fynd i'r afael â nifer o feysydd ond mae ganddo hefyd nifer o heriau i fynd i'r afael â hwy wrth IJĬl!Ħƚ !Ħи Ѷ